Crynodeb a Diweddariad o'r Hunanarfarniad (Chwefror 2015)

Dylid ystyried bod y crynodeb hwn yn ddiweddariad dros dro i'r cylch Hunanarfarnu.

Cefndir

O fewn cylch cynllunio a gwella ERW, mae'r trefniadau hunanarfarnu blynyddol yn cynnwys y diweddariadau chwarterol mewn perthynas â thargedau'r Cynllun Busnes; diweddariadau rheolaidd i'r Cydbwyllgor am y Dangosfyrddau Canlyniad Blaenoriaeth; adroddiadau sicrhau ansawdd a chysondeb ar ffrydiau gwaith allweddol ac adroddiad ysgrifenedig ffurfiol ym mis Mai. Oherwydd ymweliad diweddar Estyn, lluniwyd adroddiad hunanarfarnu ychwanegol yn ystod y flwyddyn, gyda chynulleidfa allanol mewn golwg.

Ar ôl yr adborth cadarnhaol a defnyddiol gan Estyn a Swyddfa Archwilio Cymru yn ogystal â chanfyddiadau'r adroddiad archwilio mewnol dros dro, mae ERW wedi cyflymu gweithrediad cyflym iawn y Model Cenedlaethol fel y'i cytunwyd ym mis Ebrill 2014. Mae arfer yn cael ei ymgorffori'n gyflym yn erbyn cefndir o newid strwythurol a diwylliannol sylweddol yn lleol ac yn genedlaethol; mae disgwyliadau'n uchel yn ogystal â beichiau gwaith a lefelau atebolrwydd.

Isod, amlinellwn y cynnydd mewn perthynas â sefyllfa Tachwedd 2014 (wedi'i amlygu mewn gwyrdd).

Cynnydd mewn perthynas â rhoi'r Model Cenedlaethol ar waith

Mae'r Model Cenedlaethol yn gofyn i'r rhanbarth wneud y canlynol:

1. **Penodi Rheolwr Gyfarwyddwr**
   - Dechreuodd y Rheolwr Gyfarwyddwr mewn swydd ganol mis Mai 2014
   - 3 Phennaeth Hwb mewn swydd (x2 ers mis Medi 2014)

Mae gallu'r rhanbarth wedi'i gryfhau ymhellach ers penodi Pennaeth Arwain a Datblygu; Rheolwr Gweithredol; Swyddog Cyfathrebu. Mae swyddi gwag allweddol yn y tîm Ymgynghorwyr Her yn cael eu llenwi ar hyn o bryd – mae'r rhain yn gyfuniad cytbwys o Benaethiaid ar secondiad ac ymgynghorwyr a gyflogir sydd â phrofiad diweddar o swydd uwch arwain.

2. **Gweithio'n rhan o system Gategoreiddio newydd i gydlynu, brocera a darparu gwasanaethau cymorth i ysgolion**
   - Caiff yr holl gymorth, her ac ymyrraeth i ysgolion eu fframio o fewn Ysgol Cymorth, Her ac Ymyrraeth ERW. Mae hon yn categoreiddio ysgolion yn wrthrychol ac mae Ymgynghorwyr Her yn brocera cymorth pwrpasol o'r Ddewislen Gymorth yn ôl angen.

Mae'r system wedi'i gweithredu'n llwyddiannus hyd at ei chyhoeddi'n genedlaethol. Canfuwyd bod cymedroli a herio effeithiol a manwl yn y rhanbarth wedi galluogi'r rhanbarth yn llwyddiannus i weithio'n hyderus ar lefel genedlaethol gyda lefel o wybodaeth heb ei hail. Cafodd y broses o gategoreiddio ysgolion ei chynllunio a'i gweithredu'n ofalus iawn, a bu'r adborth o'r ysgolion yn gadarnhaol.

3. **Defnyddio cydbwysedd o Benaethiaid llwyddiannus, ymgynghorwyr a chynghorwyr amser llawn yn ein gwaith cymorth a her**
   - Ein tîm o ymgynghorwyr yw ein hadnodd mwyaf gwerthfawr. Mae gennym dîm cytbwys o ymgynghorwyr wedi'u cyflogi, arweinwyr ysgol ar secondiad a chynghorwyr. Maent oll wedi cynnal hunanddadansoddiad mewn perthynas â'r safonau cenedlaethol i Ymgynghorwyr Her. Cafodd hwn wedyn ei sicrhau a'i herio gan Benaethiaid Hwb. Mae dadansoddiad rhanbarthol o'r anghenion datblygu a hyfforddi wedi dangos bod gennym, ar y cyfan, weithlu hyblyg, profiadol, dwyieithog a medrus.

Mae ein tîm yn adeiladu ei gryfder a'i arbenigedd bob mis. Yn sgil hyfforddiant datblygu llwyddiannus ym mis Rhagfyr, cafwyd gwelliannau pellach o ran ysgrifennu a dadansoddi adroddiadau. Mae'r rhanbarth wedi symud bellach i fodel o gefnogi Ymgynghorwyr Her sy'n bodloni disgwyliadau uchel y rhanbarth. Mae hyn wedi cynyddu lefelau sicrwydd a hyder mewn ysgolion ac wedi cefnogi'r gwerth a roir i farn broffesiynol mewn diwylliant o gymorth a her. Mae swyddi gwag cyfredol yn cael eu llenwi; mae hyn yn adlewyrchu'r

flaenoriaeth a roir i'n gwaith mewn hinsawdd o leihau cyllidebau. Mae sicrhau gweithlu dwyieithog yn her o hyd, yn enwedig am fod rhai o'n hysgolion gorau yn wynebu heriau tebyg.

4. Brocera mwy o waith ysgol i ysgol drwy'r broses o adnabod cymorth a her i ysgolion

- Mae'r Ddewislen Gymorth yn galluogi ERW i frocera cymorth wedi'i deilwra i ysgolion yn ôl angen; mae hwn yn cynnwys cymorth rhwng ysgolion ac adrannau.
- Mae gan ERW lawer o ffrydiau gwaith eraill sy'n cynnwys ysgolion yn gweithio gyda'i gilydd – yn bwysicaf oll, y mynegai rhagoriaeth sy'n adeiladu'r seilwaith ar gyfer system ysgol hunanwella. (isod)

Rhoddwyd blaenoriaeth i ddosbarthu adnoddau ychwanegol i ysgolion i feithrin eu gallu am waith ysgol i ysgol, gan alluogi newid amlwg mewn blaenoriaeth. Yn barod, yn y tri mis diwethaf, mae symudiad i gryfhau Ysgolion Dysgu Proffesiynol a meithrin gallu ysgolion, athrawon ac adrannau i helpu ei gilydd wedi'n galluogi i ganolbwyntio ar amrywio o fewn ysgolion, amrywio rhwng ysgolion ac amrywio traws-ranbarthol.
Mae'r mynegai rhagoriaeth yn gweithio bellach a gallwn amlygu ysgolion bob pythefnos ar y gwefan i dynnu sylw i'w cryfderau.

5. Meithrin gallu AD canolog

- Rydym wedi penodi arweinydd AD i'r Rhanbarth (sydd mewn swydd ers dechrau mis Tachwedd)
- Er mwyn cyflenwi'r Fargen Newydd i athrawon a chyfres o bolisïau i holl ysgolion ERW erbyn mis Medi 2015 – rydym yn datblygu polisi gwerthuso, gallu a thâl i gefnogi athrawon i gael eu gwobrwyo am addysgu da neu addysgu gwell dros amser, ac i fynd i'r afael yn gyflym â thanberfformiad.

Mae cytundeb Undebau Llafur i'r polisi tâl wedi'i reoli'n llwyddiannus ac mae perthnasoedd defnyddiol iawn yn esblygu'n unigol â chymdeithasau athrawon. Mae'r cyfathrebu'n dda ar agweddau cyffredinol, ond mae'n heriol o hyd mewn ysgolion unigol. Mae hyn yn effeithio'n andwyol ar ddysgu. Mae trefniadau gwerthuso a gallu cyffredin wedi'u ffurfio a'u treialu'n llawn.

6. Cymryd gwasanaethau cymorth llywodraethwyr dan yr adain ranbarthol

- Mae adolygiad o wasanaethau Cymorth Llywodraethwyr wedi dechrau'n rhanbarthol wrth inni gynllunio at y Cynllun Busnes nesaf. Mae canfyddiadau cynnar yn awgrymu bod cyfleoedd yn bodoli ar gyfer meddwl systemau ALl/rhanbarth effeithiol. Mae rhai ALlau eisoes yn cynllunio'n rhagweithiol ar gyfer arbed effeithlonrwydd a gwella ansawdd cyflenwi gwasanaeth drwy waith rhanbarthol.
- Mae canfyddiadau cynnar hefyd yn awgrymu y bydd cynlluniau rhanbarthol am Gymorth Llywodraethwyr yn canolbwyntio ar wella ysgolion a meithrin gallu yn hytrach na monitro a gweinyddu.

Mae'r Bwrdd Gweithredol wedi cytuno i fynd â'r gwaith yn ERW y tu hwnt i ddisgwyliadau sylfaenol y Model Cenedlaethol. Bydd y cymorth i gyrff llywodraethu'n cael ei frocera drwy'r Ysgol Cymorth ac Ymyrraeth sydd wedi'i hen sefydlu. Bydd ymyriad pwrpasol ac egwyddorion ysgol i ysgol yn dilyn, gan symud i ffwrdd o gyflenwi hyfforddiant ar lefel ALl.

7. Strwythurau'n Newid a chreu Cydbwyllgor

- Sefydlu Cytundeb Cyfreithiol i sicrhau atebolrwydd democratig yn lleol
- Mae cymal optio allan ar gost yn arddangos ymrwymiad
- Staff a gyflogir yn lleol – strategaeth ranbarthol
- Blaenraglen waith graffu gyffredin

Mae'r Bwrdd Cynghori, sy'n cynnwys Swyddog Monitro, Swyddog Adran 151, Gwasanaethau Democratig, AD, Caffael ac Archwilio Mewnol yn llwyddo i lywio llwybr i adeiladu seilwaith diogel a chadarn i'r rhanbarth. Mae fframwaith gwasanaethau a rennir yn darparu'r strwythur cymorth cyfreithiol gofynnol, sy'n cydymffurfio, ar gyfer cyflenwi Cynllun Busnes ERW.
Mae gweithredu rôl Gwasanaethau Democratig i reoli'r Cydbwyllgor a'r Bwrdd Gweithredol wedi arwain at well trefniadau, ac ymgysylltu canlyniadol.
Mae'r Flaenraglen Waith ar gyfer Craffu wedi'i gwella, gan feithrin yr hyn a ddysgwyd y llynedd ymhellach. Drwy gynyddu amrywiaeth yr ymgysylltu a chodi ei ansawdd, cafwyd herio mwy cadarn yn barod. Mae arfer effeithiol yn cael ei rannu rhwng awdurdodau partner ERW.

Bydd ein dangosyddion llwyddiant yn cynnwys:

Gwell canlyniadau i ddysgwyr

- **Mae dadansoddiad cynnar o Fathemateg mynediad cynnar yn awgrymu gwelliant sylweddol. Mae'r arwyddion yn debyg ar gyfer Saesneg.**

Cyfran uwch o gymorth a her wedi'u brocera yn cael eu harwain gan yr ysgol

- **(bydd modd nodi mesur cynnydd y flwyddyn nesaf)**

Cyfrannau uwch o ysgolion melyn a gwyrdd

- **(bydd modd nodi mesur cynnydd y flwyddyn nesaf)**
- **Am y flwyddyn gyntaf hon – rydym wedi canfod cywirdeb y dyfarniadau yn deg ac yn fwy trwyadl nag o dan ein model categoreiddio blaenorol**

Addysgu o well ansawdd

- **Y tymor hwn, addysgu yw blaenoriaeth ERW. Mae pob ysgol yn rhan o adolygiad rhanbarth cyfan o addysgu. Gyda'r nod o godi safonau mewn addysgu drwy wella cysondeb arsylwadau gan reolwyr canol ac uwch reolwyr.**
- **Mae ap byw i fonitro canlyniadau yn cael ei ddefnyddio i grisialu'r data ar draws ein hysgolion ac mae hwn ar gael i ysgolion ei ddefnyddio drwy'r flwyddyn i grisialu cryfderau a gwendidau addysgu'n barhaus.**
- **Wrth i ERW gynllunio i gyflenwi'r Fargen Newydd i athrawon – byddwn yn defnyddio'r wybodaeth hon a'r gofynion gwerthuso i lywio'r broses gynllunio.**

Llai o ysgolion yng nghategorïau dilynol Estyn

- **Am fod y cylch wedi newid eleni, anodd yw barnu i ba raddau y mae canlyniadau Estyn yn effeithio'n gymesur ar ysgolion. Serch hynny, mae gormod o ysgolion yn y categorïau dilynol. Fodd bynnag, mae ERW yn cydnabod bod rhai o arferion hanesyddol ALlau unigol yn cael effaith ar ein gallu i gefnogi rhai ysgolion yn ddigon cyflym. Bydd effaith y goroesiad hanesyddol hwn yn lleihau dros amser ond mae'n debygol o barhau dan ostwng am 8-12 mis.**

Cryfderau ERW

- O'i gymharu â pherfformiad rhanbarthau eraill a chyfartaleddau Cymru, mae perfformiad y disgyblion yn dda
- Mae gan awdurdodau lleol y rhanbarth arweinyddiaeth gref ar bob lefel a ffocws ar y cyd ar wella addysg
- Ymrwymwyd i arweinyddiaeth wleidyddol ac mae'n deall buddion gweithio rhanbarthol
- Mae arweinwyr ysgol wedi ymrwymo i weithio mewn hinsawdd newidiol ac maent am ddylanwadu mwyfwy ar waith rhanbarthol a gweithio gyda'i gilydd i sicrhau gwelliant
- Mae tîm newydd ei benodi yn sicrhau systemau cadarn i sbarduno cysondeb ac arwain cyflymder y gwelliant.

Dim sylwadau ychwanegol

Prif heriau a meysydd i'w gwella

- Cysondeb – gyda 537 o ysgolion, mae'r amrywio rhwng ysgolion yn sylweddol, a gwahaniaethau enfawr yn ansawdd a chwmpas gwasanaethau ALl hanesyddol.
- Eglurder – mae maint y newidiadau a maint y rhanbarth yn golygu, yn rhy aml, nad yw negeseuon yn cael eu dehongli'n gyson ac, yn rhy aml, nid yw ambell randdeiliad yn cael y neges gywir
- Cyfathrebu – mae ERW wedi gwneud rhywfaint o gynnydd o ran datblygu strategaethau cyfathrebu, ond mae ganddo dasg sylweddol i gryfhau'r agwedd hon.
- **Mae systemau ansawdd a hyfforddiant datblygiadol wedi'u gosod yn eu lle i gefnogi dyfarniadau a dull o weithredu Ymgynghorwyr Her i fodloni'r safon uchel ofynnol**
- **Mae prosesau wedi'u gweithredu'n gyson o frocera cymorth i ysgolion a rhwng ysgolion wedi'u croesawu a'u cysylltu â chategoreiddio**
- **Ychwanegwyd gallu cyfathrebu at y tîm, gan wneud cynnydd sylweddol ar frandio. Cyfathrebu, ymgysylltu ac eglurder. Ynghyd â rôl y gwasanaethau Democratig, mae rhanddeiliaid allweddol eisoes wedi gweld gwahaniaeth amlwg mewn prydlondeb a mynediad at wybodaeth. Mae hwn yn brosiect tymor canolig gyda cherrig milltir tymor byr. Fel blaenoriaeth drefniadaethol allweddol, bydd yn galluogi ac yn gwella llawer o'n gwaith.**

Cynnydd mewn perthynas â dyfarniadau allweddol yn Adroddiad Hunanarfarnu mis Tachwedd

Mae'r perfformiad cyffredinol yn dda oherwydd:

- mae perfformiad lefel ysgol ar y cyfan wedi gwella ac rydym wedi adennill y safle rhanbarthol perfformiad gorau ar gyfer Lefel 2 + sef 57.6%;
- mae presenoldeb yn dal i wella, gyda 1.2pp o gynnydd y llynedd yn y sector uwchradd i 93.7% yn 2013/14; cynyddodd y sector cynradd 1.5pp i 94.9%.
- effaith gyffredinol arweinyddiaeth effeithiol drwy'r system i gyd ar ganlyniadau i ddysgwyr;
- mae'r gwaith i sicrhau dyfarniadau ar Asesu Athrawon wedi gwella ac mae'n fwyfwy trwyadl;
- systemau clir a gwybodus i ddyrannu cymorth pwrpasol wedi'i frocera i ysgolion, gyda ffrydiau gwaith meithrin gallu i gynnal a chryfhau gwelliant ymhellach;
- **mae rhaglen TGAU yn cryfhau gallu adrannol i wella ac ymateb i newidiadau cwricwlaidd.**

Mae'r rhagolygon cyffredinol am welliant yn dda oherwydd:

- mae enghreifftiau sylweddol o safonau da neu well gan ddisgyblion mewn ysgolion ledled y rhanbarth;
- o'i gymharu â pherfformiad rhanbarthau eraill a chyfartaleddau Cymru, mae perfformiad disgyblion yn dda;
- mae gan Awdurdodau Lleol y rhanbarth arweinyddiaeth gref ar bob lefel a ffocws ar y cyd ar wella addysg;
- mae gan arweinwyr hanes o wneud penderfyniadau anodd sy'n effeithio ar ganlyniadau a thrwy gydweithio maent wrthi'n ymateb i heriau allweddol yn y system;
- mae systemau i sicrhau atebolrwydd yn sbarduno cyflymder ac mae gwelliannau systematig/strategol yn cael eu deall a'u sefydlu'n dda;
- mae gan arweinwyr a rheolwyr y rhanbarth y gallu a'r weledigaeth i sicrhau gwell canlyniadau;
- mae arweinwyr ysgol wedi ymrwymo'n llawn i weithio mewn hinsawdd heriol ac maent am ddylanwadu'n gynyddol ar benderfyniadau rhanbarthol a gweithio gyda'i gilydd i sicrhau gwelliant;
- mae'r amrywiaeth o strategaethau i feithrin gallu ysgolion am welliannau a arweinir gan ysgol yn bendant ac yn cael eu targedu er mwyn cynyddu cadernid, gallu, gwybodaeth a sgiliau drwy'r holl system;
- hanes o wneud penderfyniadau arloesol ac anodd i sbarduno gwelliant;
- mae cyflenwi lefel hwb yn llwyddo i sicrhau bod cryfderau strategaeth ranbarthol yn cyd-fynd yn union â'r cyd-destun lleol;
- tîm medrus, cytbwys o Ymgynghorwyr Her yn brocera cymorth a her unigol i ysgolion mewn fframwaith cyson, a luniwyd ar y cyd, sy'n destun sicrhau ansawdd; **yn ogystal â mwy o allu yn y tîm canolog a thrwy'r Fframwaith Gwasanaethau a Rennir i sicrhau bod y Cynllun Busnes yn cael ei weithredu**
- fel grŵp o awdurdodau lleol, mae'r fantais gydweithredol yn cyflawni potensial newydd i weithio'n effeithiol ac yn effeithlon.

Meysydd i'w gwella ymhellach sydd eisoes yn cael sylw:

- cryfhau a dylanwadu ar drefniadau ar gyfer recriwtio a hyfforddi athrawon yn lleol ac yn genedlaethol, a'r disgwyliadau o hyn; **Rydym bellach yn cydweithio'n llawn â phrifysgol ac yn hyfforddi athrawon gan ddefnyddio ein hymarferwyr ysgol gorau; rydym hefyd yn gweithio i ddatblygu ffrydiau gwaith i gefnogi'r Fargen Newydd a llwybrau gyrfa i athrawon drwy ddefnyddio Ysgolion Dysgu Proffesiynol i arwain system o ysgolion hunanwella. Mae cytundeb ffurfiol ar waith ac fe'i hehangwyd i feysydd cwricwlwm eraill.**
- cynnal a gwreiddio cyfathrebu effeithiol a strategaethau llwyddiannus ar draws y rhanbarth er mwyn cynnal a gwella cyflymder y gwelliant; **mae gwell gallu ac arbenigedd yn galluogi'r rhanbarth i rannu'r lefel briodol o wybodaeth mewn pryd ac yn fwy effeithiol gyda rhanddeiliaid.**
- gweithio y tu hwnt i ofynion y Model Cenedlaethol i gefnogi grwpiau penodol o ddysgwyr; **mae ein gwaith i osod disgwyliadau uchel a meithrin gallu ysgolion i gefnogi Plant sy'n Derbyn Gofal a Phlant mewn Angen, gan ddefnyddio'r Grant Amddifadedd Disgyblion i Blant sy'n Derbyn Gofal, yn arwain y sector ac yn ymateb yn llawn i'r canllawiau newydd.**
- cyflenwi gofynion AD a Chymorth i Lywodraethwyr y model cenedlaethol i safon uchel; **gweler uchod**
- defnyddio a gweithredu'n drwyadl y systemau da ar draws y gwasanaeth gwella ysgolion i wella darpariaeth ddigonol bresennol y gwasanaeth i safon dda neu well; **mae prosiectau a ffrydiau gwaith penodol yn cael eu gwreiddio ac yn effeithio ar y gwaith hwn - Ymweliad Craidd yr Hydref, cymedroli categoreiddio rhanbarthol**
- defnyddio strwythurau a systemau cyfredol i leihau risg anghysondeb ym mhob agwedd ar ein gwaith. **Gweler uchod**